



Credit Unions
Deal with people
Deal with money

ABCUL
Credit Unions

Contact your credit union

Call us today



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 7010 0

ISBN digidol 978 0 7504 7018 6

© Hawlfraint y Goron 2012

WG14688

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair	1
Cyflwyniad	3
Adran 1: Atal Tlodi	4
Adran 2: Helpu Pobl o'u Tlodi	13
Adran 3: Camau i Liniaru Effaith Tlodi	19
Uno ar draws y Llywodraeth	26

Ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

Rhagair

Mae ein hymrwymiad i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal yn ei gwneud yn hanfodol, yn yr hinsawdd sydd ohoni, i ni barhau i fwrw ymlaen â'r gwaith o drechu tlodi drwy flaenoriaethu anghenion y bobl dlotaf ac amddiffyn y rheini sydd fwyaf mewn perygl o fod yn dlawd ac o gael eu hallgáu.

Byddwn yn gwneud hyn yn erbyn amgylchiadau economaidd heriol lle mae'r rhagolygon yn dal i fod yn ansicr dros ben a chyda pherygl mawr y bydd hyn yn gwanhau'r rhagolygon ar gyfer swyddi ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae her amlwg hefyd yn wynebu'r marchnadoedd llafur yng Nghymru ac yn y DU yn sgil rhaglen Llywodraeth y DU o gwtogi ariannol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r diwygiadau i'r system les a budd-daliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn bygwth gwthio llawer o'r aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas i dlodi difrifol a thanseilio ein hymdrechion i leihau tlodi yn gyffredinol. Mae lefelau uwch o dlodi i'w gweld hefyd mewn ardaloedd gwledig. Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn amcangyfrif ei bod yn costio 10-20 y cant yn fwy i gael safon byw ddigonol a sylfaenol mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol, a hynny'n bennaf oherwydd costau cynyddol gwresogi a thrafnidiaeth.

Ni allwn wneud popeth sydd angen ei wneud, ond byddwn yn gwneud ein gorau glas ac yn ei wneud yn dda. Byddwn yn gwneud hyn nid yn unig am mai dyma'r peth priodol i'w wneud – er bod bywyd sy'n rhydd rhag tlodi yn hawl sifil wrth gwrs – ond am ei fod yn gwneud synnwyr yn ariannol ac yn economaidd. Mae tlodi yn arwain at ganlyniadau gwaeth i unigolion o ran addysg, iechyd ac ymddygiad. Mae tlodi yn golygu costau enfawr i gymdeithas o ran llai o gynhyrchiant economaidd, llai o gydlyniant cymdeithasol a mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel gwasanaethau plant a gofal iechyd. Mae'r lefel is o sgiliau, yr iechyd gwael a'r diffyg uchelgais a ddaw yn sgil amddifadedd yn ffrwyno potensial economi Cymru.

Mae datblygu cynaliadwy wrth galon agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Mae hyn yn golygu, pan fydd dewisiadau anodd yn ein hwynebu, ein bod yn dewis yr opsiwn sy'n gweithio orau yn y tymor hir, fel buddsoddi mewn addysg gynnar well a chefnogaeth i deuluoedd yn awr er mwyn atal caledi cymdeithasol yn ddiweddarach, neu helpu dinasyddion a busnesau Cymru i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon er mwyn paratoi at gynnydd mewn prisiau yn y dyfodol. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn cynllunio ac yn creu sefydliadau, seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus a fydd yn ein gwasanaethu yn y tymor hir, a sicrhau eu bod ar gael i bawb ac y gellir fforddio eu rhedeg a'u cynnal. Mae'r cynllun hwn yn dangos sut yr ydym yn cydbwysu'r angen i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn awr gyda'r angen i fynd i'r afael â materion a fydd yn achosi tlodi i bobl yn y dyfodol.

Bydd ein Cynllun Trechu Tlodi a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gweithio law yn llaw i sicrhau canlyniadau gwell i bawb yng Nghymru. Bydd ein camau gweithredu i drechu tlodi yn ategu'r gwaith o gyflwyno ein Strategaeth Tlodi Plant strategol ac yn adeiladu ar strategaethau ategol fel y Strategaeth Tlodi Tanwydd.

O ystyried bod llawer o'r ffactorau sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ac ar unwaith ar dlodi y tu hwnt i'n rheolaeth, mae'n bwysicach fyth ein bod yn gwneud ein gorau glas a'n bod yn gallu mesur canlyniadau'r camau gweithredu hynny. Bydd effeithiolrwydd ein camau gweithredu yn dibynnu ar ein gallu i wneud pethau'n wahanol ac i sicrhau bod yr hyn a wnawn yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy sicrhau bod mwy o ganolbwynt a mwy o gydgysylltu ar draws adrannau a chyda'n partneriaid.

Does dim modd i lywodraeth wynebu'r heriau hyn ar ei phen ei hun. Byddwn yn gweithio'n agosach fyth ar draws pob sector yn awr er mwyn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu yn y cynllun hwn. Byddem yn adnewyddu ac adrodd cynnydd ar y cynllun ymhen 12 mis.

Nid ydym yn derbyn y bydd cynnydd cyffredinol yng nghyfoeth cymdeithas yn treiddio, o reidrwydd, at unigolion a chymunedau sydd mewn tlodi. Mae llawer o bethau'n rhwystro pobl rhag cyflawni eu potensial, a rhaid i ni fynd i'r afael â'r rhain ar draws ein portffolios. Mae'n rhaid i ni ddangos ein bod yn cyfeirio ein hymdrechion at y bobl a'r lleoedd lle byddant yn cael yr effaith fwyaf.

Nid mater yw hyn o roi haen o gamau gweithredu ychwanegol ar ben y rhaglenni sydd eisoes yn bodoli. Y bwriad, yn hytrach, yw mynd i'r afael â thlodi drwy bopeth a wnawn.



Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol
a Chymunedau



Gwenda Thomas AC
Y Dirprwy Weinidog Plant
a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflwyniad

Yn unol â'n hymrwymiad i les hirdymor, dyma brif amcanion ein camau gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi:

- **atal tlodi**, yn enwedig drwy fuddsoddi i roi'r dechrau gorau posibl i blant. O'r adeg y bydd rhywun yn cael ei genhedlu hyd nes y bydd yn oedolyn ifanc, ein nod fydd lleihau anghydraddoldeb cyn gynted ag y bo modd a thorri'r cyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol, tangyflawni addysgol a'r cyfleoedd gwannach mewn bywyd a ddaw yn eu sgil.
- gan gydnabod mai'r ffordd orau allan o dlodi yw drwy gyflogaeth, byddwn yn parhau i **helpu pobl i wella eu sgiliau a gwella perthnasedd eu cymwysterau**. Byddwn hefyd yn cael gwared ar y rhwystrau eraill i gyflogaeth – o rwystrau ymarferol fel hygrychedd trafnidiaeth ac adeiladau i rwystrau llai pendant fel diffyg uchelgais - gan helpu pobl i symud ymlaen ac i fyny'r ysgol gyflogaeth.
- ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau mwy o gamau gweithredu i **liniaru effaith tlodi** ar unwaith. I fwy a mwy o bobl, nid yw hyd yn oed bod mewn gwaith yn sicrhau eu bod yn gallu dianc rhag tlodi. Gallwn weithredu i wella ansawdd bywyd y cymunedau, y teuluoedd a'r unigolion hyn.

Rhaid gweithredu yn y meysydd hyn mewn ffyrdd sy'n **gwella pethau i bawb**. Dylai gofal plant fforddiadwy o ansawdd da helpu plant i gyrraedd cerrig milltir datblygu pwysig: ar yr un pryd, bydd hynny'n creu gwaith i rai ac yn cael gwared ar y rhwystr i gyflogaeth i eraill. Dylai camau cynnar pwrpasol i atal pobl ifanc rhag peidio â bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth fod o fudd uniongyrchol iddynt hwy, ond dylent hefyd fod o fudd i'r genhedlaeth nesaf. Dylai cyngor sy'n helpu pobl i ddelio â dyled, neu i fynd ar-lein, fod yn sylfaen i'w galluogi i reoli eu harian yn gynaliadwy ac i ddefnyddio sgiliau newydd i gymryd mwy o ran mewn gwaith a chymdeithas.

Ar gyfer y tri amcan hyn, mae'r cynllun yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith yn flaenorol, gan ddangos hanes llwyddiannus o ymrwymadau ers tro byd at sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb; yr hyn y mae'r Llywodraeth hon eisoes yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi; a'r hyn y byddwn yn ei wneud yn awr yn ychwanegol, i roi mwy o flaenoriaeth i gamau gweithredu a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl fwyaf difreintiedig ac agored i niwed.

Adran 1: Atal tlodi, a'i wneud yn llai tebygol o ddiwydd yn y tymor hwy

Mae'r blynyddoedd cynnar yn adeg hollbwysig o safbwynt datblygiad corfforol, gwybyddol, ieithyddol, cymdeithasol ac emosiynol plant. Mae gwaith ymchwil yn dechrau dangos hefyd fod yr hyn sy'n digwydd i blant yn y blynyddoedd cynnar yn gallu cael effeithiau seicolegol parhaol. Mae tlodi yn dechrau dangos ei effeithiau o oedran cynnar – erbyn 5 oed, gwelir bod plant o'r grwpiau â'r fantais fwyaf yn economaidd ar y blaen o dros flwyddyn mewn profion geirfa o'u cymharu â'r plant o gefndiroedd dan anfantais.

Os ydym am wneud gwahaniaeth yn y canlyniadau tymor hwy i'r plant a'r teuluoedd sydd mewn tlodi, rhaid i ni gynnig cefnogaeth yn gynt a chynnal y gefnogaeth honno nes bod teuluoedd yn gallu bod yn gryf ac yn hunanddigonol. Mae incwm isel a dyled yn gwneud bywyd teulu yn anoddach, gan ei gwneud yn anoddach rheoli digwyddiadau sy'n creu straen. Mae angen gwahanol lefelau o gefnogaeth ar deuluoedd mewn tlodi. Mae angen gwasanaethau mwy dwys ac aciwt ar deuluoedd a chanddynt broblemau cymhleth, er enghraifft camddefnyddio sylweddau.

Mae gan addysg rôl sylfaenol i helpu i godi pobl o'u tlodi ac i amddiffyn y rheini sydd mewn perygl o fod mewn tlodi a dan anfantais. Mae cysylltiad cryf rhwng cyrhaeddiad addysgol gwael, lefelau sgiliau isel ac iechyd a lles gwael. Fel Llywodraeth rydym wedi ymroi i drechu tlodi drwy annog uchelgais, gwella safonau mewn addysg, cynyddu lefelau sgiliau a lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd a lles.

Yn ogystal â rhaglenni gwariant a grantiau penodol, fel y rheini y cyfeirir atynt isod, bydd angen cael dulliau gweithredu sy'n cyfuno'r gwaith o wella ar draws yr ysgol gyfan gydag ymyriadau penodol ar lefel y disgybl, er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gwella yn gyffredinol a bod llai o fwllch o ran cyrhaeddiad.

Yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma

- Wrth fynd i'r afael â thlodi plant, mae Llywodraeth Cymru wedi seilio'r gwaith ar hawliau plant a phobl ifanc yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan gydnabod bod trechu tlodi yn golygu gwella lles plant yn ogystal â rhoi sylw i dlodi o ran incwm. Rhoddodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddyletswyddau ar gyrrff cyhoeddus i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i chwarae a'r hawl i gyfranogi.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu brecwast am ddim i bob plentyn o oed ysgol gynradd mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Nod hyn yw helpu i wella iechyd a lefelau canolbwyntio disgyblion, a helpu i godi safonau dysgu a chyrhaeddiad. Mae'r ddarpariaeth hon yn bwysig iawn i blant mewn tlodi. Os nad ydynt yn cael digon o faeth, mae hyn yn debygol o effeithio er gwaeth ar eu gallu i ddysgu.

- Mae'r rhan fwyaf o'r arian ar gyfer ysgolion yn mynd drwy'r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol, a defnyddir fformiwla i'w gyfrifo sy'n cynnwys mesur amddifadedd – mae hynny'n golygu mwy o arian i awdurdodau lleol ac ysgolion mewn ardaloedd tlotach. Mae gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru dargedau swmpus eisoes i ehangu mynediad at addysg uwch ymysg cymunedau difreintiedig, a'r llynedd fe wnaethant wrthod cynlluniau ffioedd dysgu cychwynnol (myfyrwyr) prifysgolion Cymru am nad oeddent yn ddigon uchelgeisiol i gwrdd â'n huchelgais ar gyfer ehangu mynediad. Mae mynd i'r afael ag anfantais yn rhan greiddiol o'n hymyriadau a'n patrymau gwario.
- Mae'r cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn dal i fod ar waith. Nod y Lwfans yw mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng incwm isel a lefel cyfranogiad isel drwy roi cymhelliant ariannol i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed o gartrefi incwm isel i aros mewn addysg amser llawn y tu hwnt i addysg orfodol.

Beth rydym yn ei wneud yn awr

Blynyddoedd cynnar

- Gwyddom fod ymyriadau i gefnogi plant yn y blynyddoedd cynnar yn effeithiol dros ben wrth fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Dyna pam ein bod yn buddsoddi'n sylweddol yn y **Cyfnod Sylfaen** – cwricwlwm datblygiadol ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed, sy'n cael ei weithredu'n llawn drwy Gymru gyfan erbyn hyn. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn annog plant i fod yn greadigol, i ddefnyddio'u dychymyg ac i gael hwyl, ac mae'n gwneud dysgu yn brofiad mwy pleruserus a mwy effeithiol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai darpariaeth y blynyddoedd cynnar gynnig sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol drwy gwricwlwm sy'n briodol i ddatblygiad plentyn.
- Mae gan bawb yr hawl i gael addysg *Cyfnod Sylfaen* – drwy ddenu plant ifanc i ddysgu, beth bynnag yw eu cefndir, eu hamgylchiadau a'u hanghenion penodol, ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau posibl a'r hyder i ddatblygu ei lawn botensial.
- Mae'r *Cyfnod Sylfaen* yn adeiladu ar y **Rhaglen Dechrau Deg**, sy'n targedu plant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant rhan-amser o ansawdd am ddim i blant 2-3 oed; gwasanaeth Ymwelwyr lechyd gwell (lle mai 110 o blant fydd llwyth achos mwyaf yr Ymwelydd lechyd); mynediad at Raglenni Magu Plant; a mynediad at sesiynau Iaith a Chwarae. Mae'r rhain ar gael i bob plentyn 0-3 oed a'u teuluoedd yn yr ardaloedd lle maent yn cael eu darparu.

Cefnogaeth gynnar i blant a theuluoedd

- Nod **Teuluoedd yn Gyntaf** yw sbarduno gwelliant mewn systemau cefnogi lleol i deuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tlodi. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella ac arloesi yng nghyd-destun rhoi cymorth i blant a theuluoedd, a theilwra gwasanaethau'n fwy priodol ar gyfer angen lleol. I atgyfnerthu'r ddarpariaeth, mae angen gweithio mwy effeithiol rhwng asiantaethau ynghyd â gwasanaethau integredig er mwyn cynnig cefnogaeth gyfannol i blant a theuluoedd ar bob lefel o angen, ond gyda phwyslais mawr ar atal a chefnogi'n gynnar. Mae pob Awdurdod Lleol wedi cael arian ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon, a byddant yn cael hynny eto yn 2013/14, i ddarparu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar lefel leol, gan gynnwys canolbwyntio ar deuluoedd a chanddynt blant a/neu bobl ifanc anabl. Mae hyd at £87m wedi'i neilltuo i'r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf yn 2012-2014.
- Mae angen gwasanaethau mwy dwys ac aciwt ar deuluoedd a chanddynt broblemau cymhleth fel camddefnyddio sylweddau. Bydd y **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd** yn targedu'r teuluoedd hyn a bydd timau amlddisgyblaeth yn gweithio yn gynt ac yn ddwys gyda phlant a theuluoedd er mwyn creu newid. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys rheoli dyled; tai (i leihau digartrefedd a throi allan o gartrefi), hyfforddiant dychwelyd i weithio, a gwell cysylltiad rhwng y gwasanaethau iechyd ac addysg allweddol. O wanwyn 2012 ymlaen, bydd y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gael mewn 10 ardal awdurdod lleol a bydd y rhaglen ar gael ar draws Cymru gyfan erbyn 2013. Bydd y gwasanaethau'n helpu dros 5,500 o blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i wella'u cyfleoedd bywyd ac i gael y lles gorau posibl. Byddant yn ceisio gwneud hyn drwy roi sefydlogrwydd, meithrin cadernid, a rhoi hwb ac anogaeth i'r plant lwyddo drwy fyd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth er mwyn iddynt fyw'n annibynnol. Bydd rhaglenni ymyrraeth gynnar fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi'r gwasanaethau hyn.
- Rhoddwyd dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i weithio gyda chyrrff cymunedol, gwirfoddol a statudol lleol er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod gofal plant digonol a hyblyg ar gael yn lleol i gefnogi rhieni. Rhoddir cyllid i gefnogi hyn drwy Grant Cynnal Refeniw'r Awdurdod Lleol, ac rydym hefyd yn rhoi grant o £2.3m y flwyddyn i awdurdodau lleol er mwyn iddynt helpu i ddatblygu gofal plant y tu allan i'r ysgol, a darpariaeth ar ôl ysgol yn benodol.
- Mae chwarae yn ganolog i ddatblygiad corfforol a chymdeithasol plant, a gall helpu i gyfrannu at welliannau hirdymor mewn canlyniadau iechyd ac addysg. Eleni, byddwn yn cychwyn y ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd, ac yn eu cefnogi i wneud hynny.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ac wedi mabwysiadu Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer pawb sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol a phrif bartneriaid darparu yn llunio Strategaeth Cyfranogiad Lleol, er mwyn sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei chlywed ac er mwyn iddynt fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd yn lleol.
- Mae **Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb** yn gynllun gweithredu strategol gan Lywodraeth Cymru i leihau annhegwch ym maes iechyd. I ymateb i hyn, mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol nodi a chymryd camau i roi sylw i annhegwch yn eu hardaloedd. Erbyn 2020, ein nod yw gwella disgwyliad oes iach i bawb a chau'r bwlch o ran annhegwch iechyd rhwng grwpiau cymdeithasol, o'r rhai mwyaf difreintiedig i'r lleiaf difreintiedig.
- Byddwn yn gwneud ymdrech arbennig i ddod â theuluoedd i gysylltiad â Meddygon Teulu ac i ymestyn oriau Meddygon Teulu, gan eu cysylltu ag ystod o wasanaethau. Bydd y broses o ddatblygu 'ardaloedd lleol' yn cryfhau ffocws meddygaeth teulu ar y boblogaeth, yn dehongli anghenion y cymunedau hynny yn well ac yn sicrhau bod adnoddau yn ateb yr anghenion. Bydd system adrodd flynyddol newydd yn helpu Byrddau Iechyd Lleol i nodi a gweithredu ar yr amrywiadau sy'n bodoli rhwng gwasanaethau, o safbwynt darpariaeth a pherfformiad.
- Mae'r gwasanaeth **Cynllun Gwên** yn mynd ati'n benodol i dargedu anghydraddoldebau o ran iechyd y geg. Nod y cynllun yw atal dannedd plant rhag pydru, a all arwain at gollu ac anffurfio dannedd. Gallai hyn effeithio ar siawns pobl o gael gwaith pan fyddant yn oedolion. Cyn bo hir bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ymgynghoriad ar gyfer ein cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer iechyd y geg. Bydd hyn yn cryfhau ein camau ymarferol i ddelio â dannedd drwg.
- Byddwn hefyd yn defnyddio nyrsys ysgol i leihau anghydraddoldeb o ran nifer y bobl ifanc yn eu harddegau sy'n cael mathau penodol o imiwneiddio. Rydym yn cymryd camau i geisio mynd ati'n gyflymach i leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau i blant o grwpiau economaidd-gymdeithasol is mewn damweiniau trafndiaeth ffordd. Rydym hefyd yn rhoi adnoddau i rieni drwy'r cynllun Dechrau'n Deg i'w galluogi i leihau nifer y damweiniau a'r anafiadau yn y cartref.
- Mae beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau yn aml yn gysylltiedig ag iechyd a chanlyniadau cymdeithasol gwael i'r fam a'r plentyn. Mae mamau ifanc yn fwy tebygol o ddiodef iselder ar ôl geni, ac maent yn llai tebygol o gwblhau eu haddysg. Mae plant a enir i rieni yn eu harddegau yn llai tebygol o gael eu bwydo ar y fron, yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ac yn fwy tebygol o fod yn rhieni yn eu harddegau eu hunain. Gan weithio gyda Byrddau Iechyd Lleol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd camau i leihau cyfradd y merched sy'n beichiogi yn eu harddegau. Mae hyn yn cynnwys cynnig dulliau

atal cenhedlu i bobl ifanc benodol - dulliau a fydd yn gweithio am gyfnod hir ac y gellir eu tynnu.

- Byddwn yn adrodd ar gyfraddau merched sy'n beichiogi yn eu harddegau, pwysau geni isel, a phydredd dannedd mewn plant 5 oed a 12 oed.
- Mae cefnogaeth gynnar yn bwysig i unigolion o bob oed. Wrth roi'r Mesur Iechyd Meddwl ar waith, bydd yn chwarae rôl allweddol o ran cryfhau gwasanaethau yn y gymuned a gwella cysylltiadau gyda gwasanaethau arbenigol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i gefnogi cleifion a chanddynt broblemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â phroblemau ariannol neu broblemau colli swydd.
- Nod y strategaeth iechyd meddwl newydd, **Law yn Llaw at Iechyd Meddwl**, yw cael gwared ar anghydraddoldebau o ran mynediad a sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth mwyaf agored i niwed yn cael eu clywed a'u cydnabod. Mae dangosyddion a ffyrdd o fesur canlyniadau wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer y strategaeth.

Lleihau'r bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol

Mae diwygiadau cyffredinol Llywodraeth Cymru i godi safonau ysgolion yn chwarae rôl allweddol o ran lleihau effaith tloedi ar gyrhaeddiad addysgol. Drwy wella perfformiad pob ysgol, a thrwy leihau'r amrywiadau a welir rhwng ysgolion ac o fewn ysgolion, bydd safonau dysgu yn gwella i bob dysgwr, a'r rheini a ddaw o gefndiroedd difreintiedig fydd yn elwa fwyaf. Bydd hyn, yn ei dro, yn arfogi pobl ifanc ac oedolion i gyrraedd eu potensial a sicrhau cyflogaeth gynaliadwy. Mae bandio ysgolion uwchradd wedi ein helpu i weld pa ysgolion sydd ag angen cymorth, ac wedi galluogi'r consortia i wahaniaethu rhwng y cymorth sydd ar gael i ysgolion mewn amgylchiadau penodol.

- Mae gan y pedwar consortia addysg rhanbarthol gynlluniau gweithredu ar gyfer pob ysgol ym mand pedwar a phump. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn cynnwys ffocws ymarferol ar gamau i wella, gyda chymorth ariannol o £10,000 gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau gweithredu unigol.
- Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd da yn hanfodol i wella safonau addysg. Mae'r Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol ar gyfer Cymru yn nodi'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid i sicrhau newid sylweddol mewn safonau llythrennedd dros y pum mlynedd nesaf.
- Dyma rai o'r prif gynlluniau yn y rhaglen hon: cymorth penodol i ddisgyblion, cymorth ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon, rhannu arferion gorau a'u defnyddio'n gyson, fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol statudol, a datblygu profion darllen cenedlaethol. Cyhoeddir ein Rhaglen Rifedd Genedlaethol yn yr hydref.

- Rydym yn cydnabod hefyd y bydd gan blant a phobl ifanc amrywiaeth o anghenion a dymuniadau wrth iddynt symud drwy system yr ysgol. Mae ein polisi Llwybrau Dysgu 14-19 wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at ddewis ehangach o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y cyfnod Ôl-16. Mae hefyd yn sicrhau'r hawl i helpui dysgwyr i oresgyn unrhyw rwystrau i'w haddysg neu i'w helpu i aros ym myd addysg.
- Yn y tymor byr, mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn gyfle allweddol i ysgolion fuddsoddi mewn dulliau effeithiol i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd. Gyda'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, ceir buddsoddiad ychwanegol o £58 miliwn i ysgolion ac awdurdodau lleol yn 2012-13 a £68 miliwn ychwanegol yn 2013-14 ac yn 2014-15. Mae ein canllawiau yn rhoi anogaeth gref i ysgolion mewn ardaloedd sy'n hynod ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol i weithio'n agos gyda'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer cynlluniau a fydd yn codi safonau ysgolion ac yn lleihau'r bwloch mewn cyrhaeddiad addysgol.
- I'r rheini sy'n dewis parhau â'u hastudiaethau ar lefel uwch, mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai mynediad at Addysg Uwch fod yn seiliedig ar eu gallu i ddysgu yn hytrach na'u gallu i dalu. Bwriad ein pecyn cefnogi myfyrwyr a'r gofynion ar gyfer cynlluniau ffioedd dysgu yw cael gwared ar y rhwystrau ariannol ac annog ceisiadau gan grwpiau difreintiedig i barhau ag Addysg Uwch. Mae ehangu mynediad at Addysg Uwch yn un o nodau sylfaenol **Er Mwyn Ein Dyfodol** ac yn un o elfennau craidd ymgyrch Llywodraeth Cymru i gael cyfiawnder cymdeithasol.
- Mae **Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer Addysg Bellach** yn grant sy'n dibynnu ar brawf modd. Mae wedi'i anelu at oedolion 19 oed a throsodd i'w helpu gyda'r gost o barhau mewn addysg bellach neu i ddychwelyd i addysg bellach. Ceir lefelau cymorth yn seiliedig ar drothwy incwm cartref o £18,370. Gall myfyrwyr cymwys gael taliadau o hyd at £1,500 os ydynt yn astudio'n llawn amser a hyd at £750 os ydynt yn astudio'n rhan-amser.

Gwyddom mai'r bobl ifanc y bydd angen i ni eu targedu er mwyn lleihau'r bwloch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion fydd yr un bobl ifanc, yn aml iawn, a fydd angen ein cymorth, oherwydd eu bod mewn perygl o ymddieithrio o fyd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Ar dudalennau 14 ac 17 isod, nodir sut yr ydym am fynd ati i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd wedi ymddieithrio yng Nghymru.

Beth arall y byddwn yn ei wneud

- Mae £55 miliwn arall wedi'i glustnodi i gefnogi datblygiad y cynllun ***Dechrau'n Deg*** dros y tair blynedd ariannol 2012-13, 2013-14 a 2014-15, gan ddyblu nifer y plant a fydd yn elwa yn ystod y tymor Llywodraethu hwn.
- Byddwn yn targedu datblygiad ***Dechrau'n Deg*** ar grynodiadau o deuluoedd a chanddynt blant rhwng 0 a 3 oed sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael Cymhorthdal Incwm ledled Cymru. Fel y nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, bydd y Tîm Dechrau'n Deg yn gweithio gyda rhanddeiliaid i weithredu systemau newydd a fydd yn adrodd am nifer y grwpiau "anodd eu cyrraedd", gan gynnwys teuluoedd lleiafrifoedd ethnig, sy'n manteisio ar elfennau'r rhaglen. Bydd y canllawiau hyn hefyd yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol nodi sut y byddant yn mynd i'r afael â'r anghenion hynny.
- Byddwn yn creu cysylltiadau cryfach rhwng rhaglenni, er enghraifft rhwng Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a ***Cymunedau yn Gyntaf***. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf yn cysylltu'n effeithiol gyda chyrff addysg ac iechyd er mwyn cynyddu nifer y bobl y mae arian iechyd ac addysg prif ffrwd yn ei gyrraedd, a gwella effaith yr arian hwnnw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2011, mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei hail-lansio (o fis Ebrill 2012) fel Rhaglen sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned wrth fynd i'r afael â thlodi. Bydd yn parhau i gefnogi ac annog gweithredu lleol i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi tlodi yn y tymor hir a'i effeithiau hirdymor yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Bydd yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn fwy ond bydd llai ohonynt (fe'u gelwir yn Glystyrau), a bydd y gwaith partneriaeth effeithiol rhwng prif ddarparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid strategol eraill yn symlach. Bydd fframwaith monitro newydd, ar sail Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, yn dangos y cyfraniad a wnaed gan y rhaglen i dri chanlyniad allweddol: Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau lachach.

Tîm o amgylch y teulu

Rydym eisoes wedi ymroi i sicrhau cefnogaeth aml-asiantaeth ar gyfer teuluoedd sydd ag angen hynny, wedi'i theilwra i'r materion penodol a wynebant, a rhoi'r teuluoedd, ac nid y gwasanaethau a ddarperir, wrth galon gwaith y Timau o amgylch y Teulu. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein Timau Teuluoedd yn Gyntaf a'n Timau Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, gan sicrhau cefnogaeth y gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, addysg, cyfiawnder a'r Trydydd Sector. Mae arwyddion yn dangos y bydd dull gweithredu teulu cyfan, gyda phwyslais mawr ar gefnogaeth gynnar ac ataliol, yn fwy effeithiol ac yn fwy cost effeithiol o ran sicrhau canlyniadau gwell; ond mae'n golygu newid sylweddol yn nulliau gweithio Llywodraeth Cymru a darparwyr

gwasanaethau eraill. Bydd grŵp traws-Lywodraeth sy'n cefnogi'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgymryd â'r gwaith hwn. Dyma rai o'r camau gweithredu:

- Yr haf hwn, dyfernir contract gwerthuso tair blynedd ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf. Bydd y tîm gwerthuso annibynnol yn adrodd yn flynyddol ar lwyddiant dulliau gweithredu'r Tîmau o amgylch y Teulu sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu ar lefel leol fel elfen allweddol o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. (Mae dulliau'r Tîm o amgylch y Teulu yn seiliedig ar y cynlluniau pum mlynedd ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf a gyflwynwyd eleni gan Awdurdodau Lleol.) Ym mis Gorffennaf eleni, ar y cyd ag Awdurdodau Lleol a phartneriaid, bydd y tîm Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn sefydlu 'Setiau Dysgu' cenedlaethol, gan gynnwys un ar gyfer dulliau'r Tîm o amgylch y Teulu. Bydd y Setiau Dysgu yn cynnig cyfleoedd strwythuredig i rannu'r hyn a ddysgir wrth ddatblygu a gweithredu elfennau allweddol Teuluoedd yn Gyntaf. Ategir y rhain gan astudiaethau achos ac adroddiadau ar wefan Teuluoedd yn Gyntaf.
- Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus i roi arweiniad ar lefel leol a rhanbarthol ar gyfer datblygu dulliau gweithredu sy'n cysylltu gwasanaethau o amgylch anghenion yr unigolyn a'r teulu. Byddwn hefyd yn helpu mwy o sefydliadau i baratoi'r achos ariannol ar gyfer mabwysiadu dulliau integredig "tîm o amgylch y teulu". Erbyn canol 2013, byddwn yn sefydlu priodoleddau amlinellol ar gyfer yr amrywiol ymyriadau gan y Tîm o amgylch y Teulu sy'n rhan o'r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf. Erbyn canol 2014, byddwn yn datblygu set o safonau cenedlaethol yn seiliedig ar y dystiolaeth werthuso.
- Bydd y camau a nodir yn **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy** yn cael gwared ar y ffiniau di-fudd rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion. Bydd hyn yn cyflwyno rhaglen o drawsnewid wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn bodloni anghenion ein pobl fwyaf difreintiedig ac agored i niwed.

Cyrhaeddiad addysgol

- Bydd y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion yn sicrhau bod brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd ar gael ym mhob ysgol a gynhelir, oni bai bod yr Awdurdod Lleol yn methu â chyflawni hyn yn rhesymol.
- Ceir tystiolaeth gref fod grwpiau penodol yn tangyflawni ac mae hyn yn cynnwys plant anabl, bechgyn a grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol gan gynnwys plant a phobl ifanc o dras Pacistanaid, Bangladeshaid, Affricanaid Caribî a Sipsiwn a Theithwyr. Yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ceir camau gweithredu manwl i fynd i'r afael â hyn:

- Byddwn yn gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc anabl a'r rheini a chanddynt Anghenion Addysgol Arbennig drwy ddiwygio'r fframwaith statudol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Byddwn yn dadansoddi gwybodaeth ac yn nodi materion lle mae angen ymyrryd er mwyn codi cyrhaeddiad ymhlith y grwpiau lleiafrifoedd ethnig hynny sy'n tangyflawni, gan gynnwys patrymau gwahardd mewn ysgolion.

Gofal plant

Mae cael mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd a fydd yn sicrhau bod canlyniadau datblygiadol y plentyn yn gwella yn rhan ganolog hefyd o helpu rhieni i fynd yn ôl i weithio. Mae adroddiadau, un ar ôl y llall, wedi nodi mai dyma un o'r pethau mwyaf o hyd sy'n rhwystro pobl mewn tlodi sy'n awyddus i fynd i weithio. Nodwyd gan Weinidogion felly fod mynediad at ofal plant fforddiadwy o safon uchel yn un o'r prif flaenoriaethau o ran trechu tlodi.

Byddwn yn edrych ar ffyrdd o gynyddu'r gofal plant fforddiadwy o safon uchel sydd ar gael, gan adeiladu ar yr asesiadau statudol o angen a wneir gan Awdurdodau Lleol, a gweithio gyda'r sector preifat, mentrau cymdeithasol, cyrff proffesiynol ac eraill. Mae grŵp ar draws Lywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau edrych ar sut y gallwn integreiddio darpariaeth gofal plant ar draws y Blynyddoedd Cynnar o'r cyfnod cyn-geini at 7 oed, gan gynnwys Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. Estynnir y gwaith hwn i gynnwys rhagor o gydweithrediad er mwyn datblygu dull integredig o ymdrin â gwasanaethau a gofal 'cofleidiol' y tu allan i oriau craidd ysgolion ar gyfer plant rhwng 8 a 16 oed. Bydd hyn yn cynnwys Grant Gofal Plant y tu allan i'r Ysgol a brecwast ysgol am ddim. Byddwn yn gwneud y canlynol:

- cynnal dadansoddiad manylach o'r Aseidiadau Digonolrwydd diweddaraf ym maes Gofal Plant a datblygu mwy ar y gwaith a wneir ar draws adrannau ar y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys y flaenoriaeth i gael gofal plant fforddiadwy, yng nghyd-destun lleihau lefelau tlodi;
- dadansoddi'r cymorth ariannol sydd ar gael i rieni ar hyn o bryd drwy raglenni lleol a rhaglenni Canolfan Byd Gwaith;
- gweld lle ceir bylchau mewn darpariaeth gofal plant a chynnig argymhellion cynnar ar sut y gellir annog a chefnogi'r cyflenwad o ofal plant;
- edrych lle gellir defnyddio rhaglenni allweddol er mwyn sicrhau bod cymaint o gyfleoedd ag y bo modd i rieni gael cymorth gofal plant, gan gynnwys rôl Gwasanaethau Gwybodaeth Teulu Lleol;
- cynnig argymhellion cychwynnol ar y math o gymorth y gallem ei gynnig i rieni; costau dangosol a modelau posibl ar gyfer darparu.

Adran 2: Helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd gwaith ac ennill incwm

Mae twf a swyddi cynaliadwy wrth galon y Rhaglen Lywodraethu, a blaenoriaethau pennaf Llywodraeth Cymru yw swyddi a'r economi. Mae cyflogaeth yn cynnig lefel uchel o warchodaeth i unigolion a theuluoedd yn erbyn tlodi. Ceir cysylltiad cryf rhwng cymwysterau a sgiliau, cyflogaeth ac enillion. Un o'n hamcanion yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol fydd gweithio gyda phartneriaid i nodi a rhoi sylw i'r hyn sy'n achosi'r gwahaniaethau mewn cyflog a chyflogaeth rhwng y rhywiau, grwpiau ethnig a phobl anabl.

Yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma

- Dros y chwe blynedd at 2010, cymerwyd camau breision yng Nghymru i wella lefelau cymwysterau yng Nghymru a'r cymysgedd cyffredinol o sgiliau. Cododd cyfran y boblogaeth oed gweithio a chanddynt radd neu gymhwyster uwch 5.2 pwynt canran, a gostyngodd y gyfran heb gymwysterau o gwbl 4.9 pwynt canran.
- Gwelwyd gwelliant yn y gyfradd sy'n cwblhau prentisiaethau (o 54% yn 2006/07 i 80% yn 2009/10).
- Dros y degawd diwethaf, mae'r rhaglen ReAct wedi llwyddo'n dda i helpu pobl i fynd yn ôl i weithio. Mewn gwerthusiad mewnol o'r ddarpariaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2008 a 31 Tachwedd 2011, dangosir bod 76% o gyfranogwyr wedi cael gwaith newydd o ganlyniad i ReAct.
- Mae GO Wales yn rhaglen sgiliau a chyflogadwyedd ar gyfer myfyrwyr, a chaiff ei noddi a'i rheoli gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'i darparu gan sefydliadau Addysg Uwch ledled Cymru. Mae gan y rhaglen enw da ymhlith cyflogwyr ac mae dros 3,500 o bobl wedi elwa ohoni hyd yma.
- Buddsoddi arian yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mewn camau i sicrhau mwy o gyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd (30 prosiect sy'n werth dros £280m gyda'i gilydd), a chodi lefelau sgiliau. Mae ein rhaglenni Ewropeaidd hefyd yn cefnogi mentrau cymdeithasol, cynhwysiant ariannol a ffyrdd o ddatblygu a arweinir yn lleol, ac mae hyn yn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu.

Beth rydym yn ei wneud yn awr

- Mae'r risg o dlodi i blant mewn teuluoedd sydd heb waith yn dal yn uchel, ar 58 y cant, sydd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd o 22 y cant. Felly, er mai mater i'r Adran Gwaith a Phensiynau yw'r agenda O Fudd-dal i Waith, rydym yn benderfynol o wneud yr hyn a allwn i hybu sgiliau, a chreu a diogelu swyddi. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid

mewn llywodraeth leol, y trydydd sector, Darparwyr y Rhaglen Waith, cyrff cyflogwyr a'r Adran Gwaith a Phensiynau drwy'r Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth i gydlynu cymorth ar gyfer pobl ddi-waith.

- Mae cynlluniau hyfforddi ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a Camau at Waith ar gyfer pobl 18 oed a throsodd yn cefnogi pobl ifanc ac oedolion i fagu hyder a chymhelliant, i wella eu sgiliau ac i gael profiad gwaith i'w galluogi i gael gwaith cynaliadwy.
- Mae cymorth i oedolion er mwyn iddynt ennill sgiliau sylfaenol wedi cael ei ailfodelu gyda lansiad 'Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle'.
- Twf Swyddi Cymru (helpu pobl ifanc i gael gwaith). Mae Twf Swyddi Cymru yn un o brif ymrwymadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a bydd yn creu 4,000 o gyfleoedd swyddi ar draws Cymru ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn ogystal â phobl ifanc ddi-waith rhwng 18 a 24 oed. Bydd y Rhaglen hefyd yn darparu pecyn cymorth i'r unigolyn o'r diwrnod cyntaf o fod yn ddi-waith (nes y bydd yn dod yn gymwys ar gyfer Rhaglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau). Canolbwyntir ar gefnogi'r unigolyn i symud ymlaen at gyflogaeth gynaliadwy neu, lle bo'n briodol, prentisiaeth. Bydd y cynllun yn cynnig profiad gwaith i bobl ifanc am 6 mis. Telir yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu uwch ar gyfer hyn am leiafswm o 25 awr yr wythnos.
- Rydym wedi adeiladu ar lwyddiant y cynllun ProAct llwyddiannus drwy Sgiliau Twf Cymru, estyniad gwerth £30m (gan gynnwys £17m Cronfa Gymdeithasol Ewrop sydd wedi'i gymeradwyo erbyn hyn ac a fydd ar agor i ymgeiswyr newydd tan 2015. Bydd hyn yn cefnogi 200 o gwmnïau ac yn cyfrannu at greu hyd at 3000 o swyddi newydd.
- Mae prentisiaethau yng Nghymru yn agored i bawb, ac mae datblygiadau newydd ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr yn cymhell pobl i gymryd rhan. Gyda'i gilydd, mae Llwybrau at Brentisiaethau a'r Rhaglen Recriwtiaid Ifanc hynod llwyddiannus yn paratoi'r cyflenwad o brentisiaid medrus iawn ac yn sbarduno'r galw am brentisiaethau gan gyflogwyr hefyd. Mae'r Pecyn Ysgogi Economaidd wedi rhoi buddsoddiad ychwanegol o £4.23m i'r Rhaglen Recriwtiaid Ifanc, gan gynnig cefnogaeth i gyflogwyr ar gyfer cyfleoedd prentisiaeth ychwanegol lle mae angen cynnal gweithlu medrus iawn.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o adnewyddu sgiliau'r rheini sy'n wynebu colli eu swyddi drwy ReAct ac Adapt – gan sicrhau bod sgiliau'r bobl sy'n gadael cyflogaeth yn cyfateb i'r sgiliau sydd eu hangen gan gyflogwyr sy'n recriwtio.
- Byddwn yn darparu Cronfa Twf Economaidd gwerth £30m i roi'r hwb ar gyfer twf, gan alluogi busnesau i fuddsoddi mewn prosiectau a fydd yn

gymorth i greu hyd at 1,700 o swyddi newydd ac yn diogelu hyd at 1,600.

- Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant lleol yn ogystal â cheisio defnyddio cadwyni cyflenwi lleol – drwy helpu Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus i lwyr fabwysiadu polisi caffael Llywodraeth Cymru sy'n dwyn 'manteision cymunedol' gyda phob contract priodol dros £2m. Bydd hyn yn bodloni un o ymrwymadau'r Compact Llywodraeth Leol.
- Byddwn yn ymdrechu i gryfhau'r manteision economaidd yn sgil gwariant rheolaidd. Mae gwariant cyfalaf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) wedi'i gysylltu â datblygu prentisiaethau, a chaiff effaith rhaglen gyfalaf y GIG ar greu swyddi ei monitro'n agos. Mae'r GIG wedi chwarae rhan ganolog wrth geisio cael mwy o fanteision o'r broses gaffael. Mae'r GIG wedi treialu ffyrdd o ddefnyddio ei broses recriwtio i roi hyfforddiant i bobl sydd â lefel sgiliau gymharol isel er mwyn iddynt ennill sgiliau newydd y byddai modd eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r farchnad waith.
- Byddwn yn dal i ganolbwyntio ar iechyd yn y gwaith er mwyn helpu pobl i ddal gafael ar eu swyddi ac osgoi bod yn ddi-waith. Byddwn yn gwneud hynny drwy roi ystod o gymorth a chynghor i unigolion, cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ar sut mae gwella iechyd yn y gwaith, lleihau effaith salwch yn y gwaith, ac annog ymyrraeth gynnar i gefnogi pobl sy'n mynd yn sâl yn eu gwaith.
- Yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, un o'r amcanion yw lleihau nifer y bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, gan gynnwys camau pwrpasol i sicrhau nad yw'r ffigur hwnnw'n cynnwys cyfran rhy uchel o blith grwpiau ethnig penodol, pobl sy'n gadael gofal a phobl anabl. Mae camau eraill yn cynnwys monitro lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc anabl yn ogystal â dynion ifanc a menywod ifanc sy'n mynd am hyfforddeiaeth / prentisiaeth.

Beth arall y byddwn yn ei wneud

Gweithio gyda busnesau

- Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth a geir o lwyddiant cymhorthdal recriwtio a chymhorthdal cyflogau fel ffyrdd o gymell busnesau i gyflogi unigolion sydd dan anfantais oherwydd tlodi difrifol neu gyson, a chynnig camau yn unol â hynny.
- Byddwn yn asesu ein gweithgareddau cymorth i fusnesau i weld a ellir gwneud mwy i godi pobl o'u tlodi, ac i ystyried, lle bo'n briodol, y cysylltiadau ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

- Fel rhan o'n proses werthuso ar gyfer cymorth grant i fusnesau, byddwn yn cyflwyno pwysoliadau cadarnhaol. Bydd y rhain yn caniatáu ar gyfer yr effaith a welir yn sgil annog grwpiau anodd eu cyrraedd yn ôl i weithio. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried lefelau cyflogau swyddi wrth asesu ansawdd prosiectau, ac yn caniatáu mwy o gyfyngiadau cost fesul swydd mewn ardaloedd difreintiedig. Rydym hefyd yn adolygu'r broses werthuso fel ei bod yn adlewyrchu manteision economaidd ehangach prosiectau yn well, ac yn bod yn sensitif i ffactorau allweddol tlodi. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r broses fuddsoddi roi cefnogaeth well i unigolion sydd mewn tlodi difrifol neu gyson.
- Byddwn yn adolygu'r model ar gyfer cefnogi mentrau cymdeithasol, gan ystyried sut y gall y sector hwn ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol er mwyn meithrin gallu a sgiliau, a rhoi hwb ymarferol i'r economi drwy wella rhagolygon cyflogaeth y bobl sydd heb waith a'r bobl sy'n economaidd anweithgar.
- Byddwn yn disgwyl i unrhyw fusnes sy'n chwilio am gymorth i gytuno i'n hegwyddorion sy'n ymwneud â Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiad i arferion cyflogaeth da, fel trefniadau gweithio hyblyg, er mwyn annog creu swyddi sy'n hygyrch i rieni a gofawyr eraill.
- Byddwn yn cymryd camau integredig yn rownd nesaf rhaglenni Ewrop (2014-2020) i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a threchu tlodi. Bydd angen i'r Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig fod yn hyblyg gyda'r gallu i addasu, ond yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau twf a swyddi cynaliadwy ar gyfer busnesau a phobl ledled Cymru a helpu pobl i fynd i weithio. O dan y Rhaglen Datblygu Gwledig canolbwyntir ymhellach ar gyflogaeth yng nghefn gwlad, busnesau bach a chanolig ac adfer cymunedau.

Gofynion o ran manteision cymunedol

- Byddwn yn cryfhau'r polisi caffael sy'n dwyn 'manteision cymunedol' ac yn sicrhau bod y gwariant yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn cynnwys y dull gweithredu hwn. Byddwn yn dilyn hynt y canlyniadau yn sgil mabwysiadu'r polisi caffael sy'n dwyn 'manteision cymunedol'.
- Byddwn yn sicrhau bod contractau ar gyfer ein buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith trafndiaeth a gwasanaethau yn cynnwys gofynion o ran manteision cymunedol sy'n cynnig cyfleoedd gwaith a hyfforddiant lleol ar gyfer pobl ddi-waith.
- Gyda ffocws cliriach ar drechu tlodi, mae pwysigrwydd cael gwared ar rwystrau i gyflogaeth yn cael ei gydnabod yn llawn yn rhaglen newydd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio mwy ar sicrhau y bydd camau gweithredu lleol yn dwyn budd i'r rheini sydd fwyaf

agored i niwed mewn ardaloedd difreintiedig, gan gynnwys y rheini sydd bellaf o'r gweithle.

- Byddwn yn sefydlu Gweithgor mewnol ar gyfleoedd cyflogaeth, gyda chynrychiolaeth o bob un o raglenni cyfalaf Llywodraeth Cymru a chadeirydd ar lefel Weinidogol.
- Byddwn yn ystyried sut y gallai camau gweithredu mentrau cymunedol penodol a gweithgarwch mentrau cymdeithasol weithio i liniaru tlodi, gan gynnwys yng nghyd-destun cynlluniau eraill i hybu twf; yn benodol, sut y gellid targedu mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau cefnogi a chyfleusterau mewn Ardaloedd Menter, fel cyfleusterau arlwyo a gofal plant fforddiadwy o safon.

Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

- Gan weithredu ar y dystiolaeth a chymryd camau a fydd yn arwain at gryn leihad yn nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, byddwn yn cryfhau sgiliau cyflogadwyedd drwy'r cwricwlwm ac yn gweithio gyda chyflogwyr i wella cyfleoedd swyddi. Byddwn yn ailgyfeirio adnoddau cyn gynted ag y bo modd er mwyn canfod y bobl ifanc sydd â mwyaf angen y gefnogaeth, a dilyn eu hynt drwy'r system nes iddynt gyrraedd prifysgol, Addysg Bellach neu gyflogaeth gynaliadwy.
- Gyda'i gilydd, gall ysgolion ac awdurdodau lleol ymyrryd er mwyn atal ymddieithrio. Wrth fynd ati i gydnabod a chynorthwyo'r disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim a'r plant sy'n derbyn gofal, byddant yn atgyfnerthu'r angen i ymyrryd yn gynnar ac yn mnd i'r afael ag un o'r ffactorau sydd wrth wraidd tlodi.
- Byddwn yn datblygu system adnabod ac olrhain a fydd yn monitro cynnydd pobl ifanc sydd mewn perygl. Byddwn yn gwneud y canlynol:
 - sicrhau bod pobl ifanc, drwy swyddogaeth froceriaeth newydd, yn cael cymorth sydd wedi'i gydlynu'n briodol drwy un pwynt cyswllt;
 - dilyn hynt pobl ifanc drwy'r system addysg a hyfforddiant nes iddynt gyrraedd addysg bellach neu addysg uwch neu gyflogaeth gynaliadwy;
 - sicrhau bod y ddarpariaeth sydd wedi'i hanelu at gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn effeithiol o ran darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt;
 - cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth;
 - gwneud ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn fwy atebol am enyn diddordeb a sicrhau cynnydd eu pobl ifanc.
- Byddwn yn rhoi cymorth gyrfaoedd hefyd i'r unigolion hynny sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Gwerth Cymru i wella ansawdd a pherthnasedd profiad gwaith, sef un o'r prif lwybrau at symudedd cymdeithasol.

- Rydym wrthi'n datblygu cardiau call ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus ac yn treialu cynlluniau yng Nghasnewydd a Môn a Menai. Pan gaiff y dechnoleg hon ei datblygu'n llawn, bydd yn rhoi cyfle i ddarparu gwahanol brisiau teithio ar gyfer grwpiau penodol – er enghraifft, trwy roi cymorth ychwanegol i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, er mwyn iddynt allu cael mynediad at gyflogaeth neu hyfforddiant.

Adran 3: Camau i liniaru effaith tlodi ar unwaith

Mae bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi, fel bywydau pawb, yn gymhleth. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae pobl yn colli eu swyddi, neu ddim ond yn gallu dod o hyd i waith rhan-amser. Mae rhai'n gweithio fel gofawyr di-dâl i aelodau eraill o'r teulu, tra bo eraill yn wynebu rhwystrau i ddod o hyd i waith oherwydd anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor. Mae'n bwysig ein bod ni fel cymdeithas wâr yn helpu pobl i gynnal safon les sylfaenol a fydd yn rhoi cyfle i bobl oroesi a dod o hyd i ffordd allan o'u tlodi. Mae'r gefnogaeth hon i wella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi yn cynnwys mynediad at gyngor ariannol, cyngor ynghylch hawlio budd-daliadau, cymorth ar gyfer ffynonellau credyd fforddiadwy, cymorth i atal tlodi tanwydd, trafndiaeth, mynediad fforddiadwy i'r rhyngwrdd, a darparu cyfleusterau hamdden, chwaraeon a chwarae rhad. Mae llawer o bobl sy'n byw mewn amddifadedd yn ysgwyddo baich ychwanegol o ran y cywilydd a ddaw yn sgil tlodi. Cywilydd sy'n rhwystro llawer o deuluoedd rhag hawlio cinio ysgol am ddim i'w plant. Cywilydd sy'n atal llawer o henoed rhag hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael. Mae deall a chael gwared ar y cywilydd hwnnw yn her arall gymhleth y mae angen i ni roi sylw iddi yn ein hymyriadau.

Yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma

- Gyda'n cymorth ni, mae dros 6000 o oedolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol wedi ymuno ag Undebau Credyd ac wedi cael gafael ar gynnyrch ariannol ledled Cymru (mae'r ffigurau ar gyfer y pymtheg mis at fis Rhagfyr 2011).
- Rydym wedi parhau i sicrhau bod gan bawb hawl i gael presgripsiynau am ddim, a bod pobl hŷn, pobl anabl a chyn-filwyr yn cael teithio ar fws am ddim. Rydym yn dal i ariannu nofio am ddim yng Nghymru i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau yn ystod pob gwyliau ysgol ac ar benwythnosau, ac mae cynllun tebyg ar gael ar gyfer pobl dros 60 oed.
- Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein rhaglenni effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd. Rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2012, cyflwynodd cam 1 y rhaglen Arbed fesurau effeithlonrwydd ynni i dros 7,500 o gartrefi ledled Cymru. Yn 2011-12, cyflwynodd ein rhaglen tlodi tanwydd newydd, Nyth, becynnau gwella ynni i dros 3,500 o ddeiliad tai sy'n debygol o ddioddef tlodi tanwydd, a rhoi cyngor ar arbed ynni a chynyddu incwm cymaint ag y bo modd i dros 14,700 o ddeiliaid tai.
- Rydym hefyd wedi cynyddu'r cyflenwad tai. Rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2011, darparwyd cyfanswm o 9,091 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol ledled Cymru, a oedd yn fwy na'r targed gwreiddiol o 6,500 a osodwyd ar gyfer 2011. Dros y cyfnod hwn mae dros £570 miliwn mewn Grant Tai Cymdeithasol wedi'i ddyrannu i gefnogi cynlluniau tai fforddiadwy yng Nghymru.

- Gosodwyd dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu Strategaethau Tlodi Plant. O ganlyniad, mae Amgueddfa Cymru wedi datblygu strategaeth i gefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tlodi 2012-2015.

Beth rydym yn ei wneud yn awr

Gwasanaethau cyngor a chefnogaeth

- Rydym yn rhoi £2.2m y flwyddyn i Cyngor ar Bopeth Cymru i ddarparu cyngor a sicrhau bod mwy o bobl yn ceisio hawlio budd-dal, gan helpu pobl i gael y gefnogaeth y mae ganddynt yr hawl i'w chael. Mae hyn yn cynnwys Cyngor Da: Iechyd Da, Cynllun Hyrwyddo Budd-dal y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai, a Chynllun Hyrwyddo Budd-daliadau Plant ag Anableddau, ynghyd â darparu cyngor cyffredinol drwy Linell Gyngor Cymru.
- Rydym yn cymryd camau i liniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU drwy ymgynghoriad a thrwy weithio'n agos drwy'r amser gyda'n partneriaid ar drefniadau'r hyn a ddaw yng Nghymru pan fydd y Budd-dal Treth Gyngor a'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol yn cael eu datganoli ym mis Ebrill 2013.
- Drwy gymdeithasau tai, mae llawer o denantiaid yng Nghymru yn cael cymorth sy'n mynd i'r afael yn benodol â thlodi drwy eu helpu i gynyddu eu hincwm neu leihau lefel eu dyledion. Gwariwyd bron i £800,000 ar hyn yn 2010-11 gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Cymorth gyda chostau byw

- Mae'r Cynllun Bathodyn Glas yn galluogi pobl anabl i barcio am ddim yn agos at wasanaethau. Yn 2010-2011 dosbarthwyd bron i 230,000 o fathodynnau yng Nghymru. Yn ddiweddar rydym wedi nodi ein bwriad i foderneiddio'r Cynllun, gan ei ymestyn i blant dan 3 sydd â chyflyrau meddygol penodol ac aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol. Yn y dyfodol, ni chodir dim ar ymgeiswyr yng Nghymru o ran gweinyddu'r bathodyn glas (yn Lloegr gall awdurdodau lleol godi hyd at £10, a hyd at £20 yn yr Alban).
- Rydym yn cadw at ein hymrwymiad i sicrhau bod pobl dros 60 oed, pobl anabl a'u cymdeithion yn cael teithio am ddim ar fws. Bellach, hefyd, mae'r cynllun teithio rhatach yn agored i aelodau'r lluoedd arfog a chyn-filwyr sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol sy'n byw yng Nghymru.
- Byddwn yn mesur nifer y teithiau pris rhatach (yn ôl anabledd / oed), sgoriau boddhad defnyddwyr bysiau o'r Arolwg Defnyddwyr Bysiau a nifer y bathodynnau glas newydd a roddwyd am ddim.

- Mae dros 23,000 o deuluoedd sydd ar incwm isel yn cael talebau wythnosol ar gyfer ffrwythau, llysiau a llaeth.
- Mae **Rhaglen y Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol** yn canolbwyntio fwyaf ar ardaloedd o amddifadedd gwledig, economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Ceir dros 300 o gydweithfeydd bwyd erbyn hyn ar draws Cymru gyfan, ac maent yn darparu bron i 7,000 o fagiâu o gynnyrch i oddeutu 4,500 o gwsmeriaid bob wythnos.
- Rydym yn parhau i roi llaeth am ddim i blant dan 7 oed. Mae'r cynllun llaeth ysgol yn cefnogi ein dull ysgol gyfan i wella maeth mewn ysgolion ac annog plant i ddatblygu arferion bwyta ac yfed da. Mae cyfrifiad ysgol 2011 yn dangos bod 109,617 o ddisgyblion yn cael llaeth am ddim.
- Caiff pobl hŷn a phobl ag anableddau ofal cartref a gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl eraill am ddim os yw eu hincwm yn is na lefel a ddiffinnir ymlaen llaw. Hyd yn oed pan fydd eu hincwm yn uwch na hyn, cyfyngir y prisiau am y gwasanaethau hyn i £50 yr wythnos. Cyflwynwyd Pecyn Gwelliant y Gwasanaethau Cymdeithasol Codi Tâl Tecach - Y Camau Cyntaf ym mis Ebrill 2011, ac mae hyn wedi sicrhau mwy o gysondeb o ran yr hyn a godir gan Awdurdodau Lleol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl. Cyflwynodd y Pecyn, ymhlith cynlluniau eraill, dâl uchafswm wythnosol o £50 ar draws unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru am wasanaethau allweddol a ddarperir i berson, waeth beth fo oriau'r gofal neu gymhlethdod amgylchiadau pob unigolyn. Mae'r Pecyn hwn wedi helpu defnyddwyr gwasanaethau i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn eu cartrefi eu hunain ac i aros yn eu cymunedau. Mae ei fesurau diogelu ariannol yn sicrhau nad yw cyfran sylweddol o ddefnyddwyr yn talu o gwbl. Mae'r Pecyn felly yn rhoi sicrwydd i aelodau cymdeithas sydd fwyaf agored i niwed, yn aml ag incwm gwario cyfyngedig.
- Mae'r Pecyn yn cael ei fonitro yn ystod ei flwyddyn weithredol gyntaf, a bydd Awdurdodau Lleol yn adrodd am effaith y polisiau newydd ar eu trefn codi tâl a'i fanteision i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r ail gyfres a'r gyfres olaf o Adroddiadau Monitro gan Awdurdodau Lleol yn cael eu dadansoddi er mwyn asesu effaith gyffredinol y Pecyn ar y tâl a godir gan awdurdodau lleol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl ac asesiad o ba mor briodol yw'r rheoliadau presennol.
- Rydym wedi ymrwymo i gadw biliau dŵr ar lefel fforddiadwy a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael dewis o opsiynau talu a fydd yn lleihau dyledion ac yn amddiffyn grwpiau agored i niwed.

Cadernid cymunedol

- Bydd Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i helpu i leddfu effeithiau tlogi drwy roi cefnogaeth a chyfleoedd i helpu pobl i wynebu heriau ac

anawsterau sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a grwpiau penodol. Ar yr un pryd, bydd y rhaglen yn cryfhau'r cymunedau cyfan, drwy feithrin hyder a sgiliau pobl a mudiadau lleol a rhoi mwy o ran iddynt mewn cynllunio strategol a darparu gwasanaethau yn eu hardaloedd eu hunain.

- Ar hyn o bryd mae ein Rhaglen Adfywio yn buddsoddi yn seilwaith ein cymunedau mwyaf difreintiedig ac yn y gwaith o'u hadfer a'u hadfywio, gan gynnwys nifer o'n trefi glan môr a chanol ein trefi. Mae ein gwaith adfywio yn gwella amgylchedd ardaloedd mewn partneriaeth, drwy greu dyluniadau mwy diogel a gwell o ran ansawdd, a thrwy ddatblygu amgylcheddau sy'n hwylus i'r teulu a datblygiadau lle ceir defnydd cymysg. Er enghraifft:
 - Nod y prosiect Llwyddo'n Lleol yw atal y llif o bobl ifanc sy'n symud allan o ardaloedd gwledig drwy gyfres o weithgareddau arloesol sy'n ceisio datblygu diwylliant o fentergarwch ymhlith pobl ifanc; a datblygu sgiliau a hyder yr unigolyn yn ogystal ag adfer eu hyder yn y cyfleoedd sydd ar gael iddynt weithio a byw yn eu cymunedau eu hunain.
 - Nod cynllun Môr a Mynydd Chwaraeon Dŵr Gogledd Cymru yw newid agwedd pobl yn llwyr at y diwydiant morol yng nghymunedau'r Gogledd – newid a fydd yn gadarnhaol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yn rhoi cyfle i'r diwydiant hwnnw gyflawni ei lawn botensial i ddarparu cyflogaeth leol gynaliadwy, twf economaidd a bywiogrwydd cymdeithasol yn y cymunedau hynny. Hyd yma mae cyfanswm o 17 ysgol uwchradd, 22 ysgol gynradd a 12 athro ysgol gynradd yn ymwneud â'r rhaglenni.
 - Datblygwyd prosiect strategol Menter yn y Cymoedd mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a phob un o'r 17 partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol. Defnyddiwyd arian cronfa canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf a chronfa Ardal Adfywio i ddatblygu Menter yn y Cymoedd. Y nod yw cryfhau ac ehangu sgiliau mentergarwch drwy ddatblygu sgiliau entrepreneuriaeth pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ar draws y naw cwm yn ardal rhaglen Cymoedd y Gorllewin.
 - Bydd cynllun peilot am flwyddyn yn targedu diweithdra ymhlith pobl ifanc, a'r nod fydd paru pobl sy'n chwilio am swyddi gyda chyflogwyr, sgiliau a darparwyr hyfforddiant. Sicrhawyd cyllid o gronfa Ardal Adfywio Abertawe drwy'r Bartneriaeth Dysgu Ranbarthol i sefydlu e-Borth yn Abertawe.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i ddarparu 12,500 o dai yn ystod y tymor Llywodraethu hwn. Mae hyn yn cynnwys hyd at 7,500 o gartrefi fforddiadwy – 1,000 yn fwy na tharged y llywodraeth flaenorol – a 5,000 o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio eto drwy'r cynllun eiddo gwag newydd.

- Mae ein rhaglen flaenllaw, Cefnogi Pobl, yn gwario £136 miliwn bob blwyddyn yn helpu'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru, gan roi cymorth hanfodol i oddeutu 50,000 o bobl sydd yn eu cael eu hunain mewn amgylchiadau personol anodd dros ben. Mae hyn yn eu galluogi i ddod o hyd i gartref neu i gadw eu cartref.
- Ceir tystiolaeth bod lefel uwch o ddigwyddiadau ac ofn troseddau mewn ardaloedd difreintiedig yn cael effaith negyddol ar gymunedau. Rydym yn ariannu 500 o swyddi Swyddogion Cymorth Cymunedol yng Nghymru i weithio yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn benodol, i wella diogelwch yn y gymuned ac i leihau lefel troseddu ac ofn troseddau. Bydd y Swyddogion Cymorth yn amlwg iawn yn eu cymunedau a byddant yn meithrin cysylltiad â'r bobl, yn rhoi sicrwydd iddynt ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi rhaglenni i leihau camddefnyddio sylweddau, troseddu ymhlith pobl ifanc ac aildroseddu, trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

- Yn aml, gall byw mewn ardal neu gymuned sydd eisoes yn ddifreintiedig gymhlethu materion sy'n gysylltiedig â thlodi, a gall trigolion ardaloedd difreintiedig wynebu lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym wedi rhoi dros £15 miliwn at wella ansawdd yr amgylchedd lleol drwy'r fenter Trefi Taclus, gydag ymrwymiad i roi £10 miliwn arall hyd at 2015. Mae prosiectau Trefi Taclus wedi gwella'r amgylchedd lleol, gan helpu ein cymunedau i fod yn gryfach a sicrhau gwell ansawdd bywyd a mwy o deimlad da. Mae Trefi Taclus wedi galluogi Cadw Cymru'n Daclus i ymwneud â 15,177 o wirfoddolwyr ledled Cymru rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012, gan eu helpu i ymfalchïo yn eu hardal leol a'i pherchenogi drwy gynnal 10,703 o brosiectau gwella'r amgylchedd sydd wedi cyfrannu at welliannau parhaol yn eu cymuned.

Beth arall y byddwn yn ei wneud

Gwasanaethau cyngor a chefnogaeth

- Yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, rydym wedi ymroi i gryfhau'r gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth i helpu pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau ac i wneud dewisiadau deallus. Mewn ymateb i hyn, ac yn sgil y newidiadau i'r system les a Chymorth Cyfreithiol, byddwn yn adolygu ein cymorth i wasanaethau cynghori, gan gynnwys tai, gan ddwyn ynghyd raglenni o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Ein nod fydd datblygu rhwydwaith cryfach o wasanaethau sy'n gallu rhoi cymorth i bobl ar bob agwedd ar anghenion sy'n ymwneud ag arian a thai. Byddwn yn gweithio ar hyn ar y cyd â'r trydydd sector a'r sector statudol.

Cymorth gyda chostau byw

- Byddwn yn datblygu trefniadau ar gyfer yr hyn a fydd yn olynu'r Gronfa Gymdeithasol, fel rhan o'r rhwydwaith hwn o gymorth a fydd yn canolbwyntio ar atebion cynaliadwy.
- Mae cinio ysgol am ddim yn hawl bwysig i blant a'u teuluoedd. Mae cinio ysgol, ac yn enwedig cinio ysgol am ddim, yn ffordd o leihau'r anghydraddoldeb iechyd a ddaw yn sgil deiet gwael. Mae cinio ysgol am ddim yn rhoi cymorth ychwanegol i'r teuluoedd hynny yr ydym wedi nodi bod ganddynt yr angen mwyaf. Mae ysgol yn cynnig yr amgylchedd delfrydol i gyfleu negeseuon cadarnhaol am fwyta'n iach, a'u cefnogi drwy ymddygiad priodol. Mae bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno Credyd Cynhwysol o 2013 ymlaen yn golygu na fydd y meini prawf cyfredol yn bodoli mwyach ar gyfer gweld pwy sydd â hawl i ginio ysgol am ddim. Er mwyn parhau i ddarparu cinio ysgol am ddim, byddwn yn chwilio am ffordd arall o bennu hawl sy'n cyfateb i'r system Credyd Cynhwysol. Byddwn yn ystyried ystod o ddewisiadau posibl ar gyfer gosod meini prawf newydd ar gyfer cinio ysgol am ddim ac, fel rhan o'r gwaith hwn, effaith bosibl y newidiadau hyn ar y rheini sydd eisoes yn cael cinio ysgol am ddim.
- Byddwn yn hyrwyddo gwell mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer grwpiau sydd wedi'u hallgáu. Erbyn 2015 ein nod yw lleihau lefelau allgáu digidol yng Nghymru ymhlith pobl dros 50 oed i 40%, pobl a gyflogir i 8%, pobl ddi-waith i 20%, pobl sy'n economaidd anweithgar i 40% a thrigolion tai cymdeithasol i 30%.
- Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i gwmnïau dŵr yn ystod haf 2012 a fydd yn eu galluogi i ddatblygu tariffiau cymdeithasol yn ystod 2013-14. Byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i werthuso'r cymorth a roddwn a nodi bylchau yn y ddarpariaeth, a chysylltu â'r gwasanaethau cynghori ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu.
- Byddwn yn adrodd ar sawl cwmni dŵr sydd wedi datblygu tariffiau cymdeithasol yn unol â'r canllawiau; nifer y tariffiau cymdeithasol a gymeradwywyd gan Ofwat; nifer y cartrefi sy'n elwa o'r tariffiau cymdeithasol; lefel y ddyled y mae cwmni dŵr wedi'i lleihau; a yw'r cwsmer yn derbyn y tariffiau cymdeithasol a gynigir; y gostyngiad yn lefel y bobl sy'n cael problemau o ran fforddio dŵr yng Nghymru.
- Byddwn yn cyhoeddi yn y dyfodol agos pa brosiectau a fydd yn cael arian yn rownd gyntaf Arbed, Cam 2 Prosiect Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Rhaglen gwerth £45 miliwn yw Cam 2, wedi'i hariannu'n rhannol gan y Gronfa drwy Lywodraeth Cymru, a bydd yn gwella effeithlonrwydd ynni mewn lleiafswm o 4,790 o gartrefi erbyn diwedd 2015.

- Byddwn yn adrodd ar nifer y cartrefi a gaiff gymorth drwy ein rhaglenni Nest ac Arbed bob blwyddyn. Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso ein rhaglenni i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu yn y ffordd fwyaf effeithiol a'n bod yn hwyluso buddsoddiad ychwanegol yng Nghymru drwy raglenni ledled y DU.
- Bydd ein gwaith datblygu cynaliadwy ac amgylcheddol yn canolbwyntio ar ddarparu pecyn integredig o gymorth i gymunedau lle ceir tlodi, amddifadedd neu lle mae angen adfywio. Bydd y rhaglen hon sy'n canolbwyntio ar leoedd yn cael ei threialu mewn nifer fechan o ardaloedd trefol gan ehangu wedyn i ardaloedd gwledig.
- Byddwn yn datblygu ac yn defnyddio adnodd sgrinio a fydd yn ein galluogi i asesu effaith economaidd-gymdeithasol y polisi trafndiaeth a'r dewisiadau buddsoddi. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni wneud dewisiadau buddsoddi a pholisïau a fydd yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi.
- Caiff cynlluniau **Llwybrau Diogel mewn Cymunedau** yn y dyfodol eu hasesu yn ôl sut y maent yn cyfrannu at drechu tlodi. Caiff y gofyniad hwn ei gynnwys wrth inni ddiweddarau ein canllawiau ar gyfer y cynllun, a'u cyhoeddi erbyn diwedd haf 2012.

Meithrin cadernid cymunedol

- Mae tlodi yn aml yn gysylltiedig ag anabledd, gan fod pobl anabl yn wynebu costau byw uwch a rhwystrau ychwanegol i gyflogaeth. Mae Sefydliad Joseph Rowntree (2011) wedi canfod bod traean o oedolion oed gweithio sydd ar incwm isel heb blant dibynnol naill ai'n anabl eu hunain, a/neu mae ganddynt bartner sy'n anabl. Mae'r gyfran hon yn chwarter ymhlith pobl sydd â phlant dibynnol. I bawb sydd o oed gweithio (a'u plant dibynnol), mae oedolyn anabl sy'n aelod o'r teulu yn golygu bod tua 50% yn fwy o risg o fod ar incwm isel.
- Byddwn yn mynd i'r afael â'r rhwystrau ac yn cefnogi pobl anabl fel eu bod yn gallu byw'n annibynnol, ac yn gallu arfer dewis a rheolaeth yn eu bywydau bob dydd. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda sefydliadau pobl anabl a phartneriaid eraill i ddatblygu Fframwaith Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol a gwblheir erbyn haf 2012.
- O eleni ymlaen, awn ati mewn ffordd newydd i ddelio â'r gwaith Adfywio. Wrth wneud penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol, rhoddir mwy o ystyriaeth i ardaloedd sy'n dioddef lefelau uchel o dlodi. Byddwn yn integreiddio ein gweithgarwch adfywio gyda'n Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Drwy hyn, bydd ein gweithgarwch adfywio yn gallu ymateb i flaenoriaethau ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a chefnogi'r bobl hynny sydd fwyaf mewn angen.

- Ym maes iechyd, byddwn yn ceisio newid yr hyn a elwir yn 'ddeddf gofal gwrthgyfartal', sef y tueddiad bod y gwasanaethau gorau yn cael eu darparu ar gyfer y bobl hynny sydd â'u hangen leiaf. Bydd elfennau craidd yn cael eu gwella –rheoli cyflyrau cronig ac yn benodol materion iechyd meddwl. Bydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn bartner allweddol gyda'r GIG.
- Rydym yn sicrhau bod £16 miliwn ychwanegol ar gael eleni i helpu i ddarparu mwy o gartrefi ar gyfer y rheini sydd â'u hangen.
- Bydd y Bil Tai yn cynnwys fframwaith cryfach ar gyfer atal digartrefedd, a gwasanaethau digartrefedd mwy cynhwysfawr a fydd yn helpu pawb sydd mewn angen. Bydd y Bil Diwygio Tenantiaethau yn gwella safonau a hawliau tenantiaid yn y sector rhentu preifat.
- Mae rhaglen genedlaethol newydd wedi'i lansio i fynd i'r afael â chartrefi gwag. Gan weithio gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a mudiadau'r trydydd sector, bydd y rhaglen yn sicrhau bod eiddo gwag yn cael eu defnyddio i gartrefu teuluoedd sydd ag angen cartref, sy'n gynulleidfa darged ar gyfer help i oresgyn tlodi, ac mae cartref sefydlog y gallant ei fforddio yn rhan allweddol o hynny.
- Un o'r prif ymrwymïadau yw gwella cyflwr eiddo'r sector rhentu preifat yng Nghymru a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar y rheini sydd ar incwm isel.
- Yn dilyn adolygiad Cefnogi Pobl, bydd y gwaith o weinyddu'r rhaglen yn newid a bydd hyn yn golygu y bydd mwy o wasanaethau effeithlon a chost effeithiol ar gael i bobl agored i niwed yng Nghymru, gan sicrhau y bydd y rheini sydd ag angen cymorth fwyaf yn ei gael.

Gwaith unedig mewn cymunedau ac ar draws y llywodraeth

Rydym yn cydnabod mai ymdrechion unigolion mentrus ac ymroddedig, sydd wedi dechrau ar raddfa fach yn eu cymunedau lleol, sy'n gyfrifol am lawer o'r llwyddiannau o ran trechu tlodi. Mae'r egwyddor o rymuso cymunedau yn allweddol i'n ffordd o weithio. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar gydymdrechion y rheini sy'n gweithio yn eu cymunedau, boed yn weithwyr gwasanaethau cyhoeddus, mudiadau trydydd sector, gwirfoddolwyr neu fusnesau. Mae gan awdurdodau lleol rôl glir i'w chwarae o ran rhoi arweiniad. Byddwn yn dibynnu ar ein partneriaid i adeiladu ar y cynllun hwn drwy gydlyn eu camau gweithredu ac arloesi ar lefelau lleol a rhanbarthol. Byddwn yn gweithio i gefnogi hyn:

- Mae ein gwaith gydag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cyflymu'r broses i wella gwasanaethau cyhoeddus, gan

gynnwys gwasanaethau effeithiol i grwpiau agored i niwed. Mae arfer da yn cael ei drosglwyddo i ardaloedd ledled Cymru.

- Bydd agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys symleiddio cynlluniau ac ad-drefnu partneriaethau er mwyn cefnogi darpariaeth gydgysylltiedig o wasanaethau lleol, yn cefnogi'r ffordd hon o weithio.
- Bydd y cynlluniau integredig sengl a lunnir ar lefel leol yn canolbwyntio'n glir ar agenda ataliol a chefnogaeth i bobl sydd wedi'u hallgáu neu'n agored i niwed.
- Byddwn yn gweithio drwy fforymau sydd eisoes yn bodoli fel Byrddau Gwasanaethau Lleol, Cynghorau Partneriaeth a Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn sicrhau arweiniad ac ymgysylltiad ar bob lefel.

Gall pob rhan o'r llywodraeth gyfrannu at y gwaith o drechu tlodi. Mae'n annatod i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, gall ddefnyddio treftadaeth i adfywio lleoedd olygu bod ein trefi yn llefydd gwell i fyw ynddynt oherwydd ein bod yn gweithio gyda chraidd a chymeriad eu tarddiad hanesyddol a'u twf er mwyn eu datblygu ar gyfer bywyd yn yr 21ain ganrif. Gall defnyddio henebion sydd yng ngofal y wladwriaeth mewn ffordd greadigol sy'n llawn dychymyg er budd pobl leol ac ymwelwyr olygu bod safleoedd treftadaeth yn gallu chwarae rôl hanfodol a chyfoes wrth gryfhau cymunedau. Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wedi ystyried yr effaith ar gydraddoldeb a thlodi fel ffactorau pwysig wrth benderfynu ar flaenoriaethau. Bydd ein rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn chwarae rôl allweddol wrth hyrwyddo dulliau cydgysylltiedig a galluogi rhaglenni prif ffrwd i weithio yn y modd gorau posibl yn y cymunedau hyn.

Un o'n heriau a'n cyfleoedd mwyaf yw sicrhau bod ein gweithredoedd gyda'i gilydd yn fwy na'r gweithredoedd yn unigol drwy eu hintegreiddio'n briodol. Byddwn yn ceidio gwneud hyn drwy arweiniad ein Bwrdd Rhaglen Gweinidogol.

- Byddwn yn asesu effaith pob datblygiad polisi newydd a phob buddsoddiad sylweddol i weld beth yw eu cyfraniad o ran trechu tlodi. Byddwn yn gwneud hynny drwy ddefnyddio "Sicrhau Canlyniadau", system Llywodraeth Cymru i brofi bod polisiau a rhaglenni yn cael eu datblygu a'u gweithredu'n effeithiol.
- Bydd ein grŵp allanol ac annibynnol o arbenigwyr yn cynghori ac yn monitro cynnydd.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu ffyrdd o ddilyn hynt a gwerthuso effaith ein camau gweithredu.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyhoeddi cynllun wedi'i ddiweddarau, a fydd yn olrhain hynt ein gweithgarwch yn awr ac yn y dyfodol.